Papur 18

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

John Griffiths AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11 Ebrill 2024

Annwyl John,

**Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Diolch i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am ystyried y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) a'r adroddiad cyfatebol ar 15 Mawrth 2024.

Gweler isod ymatebion y Llywodraeth i argymhellion yr adroddiad. Rwyf yn falch fy mod i wedi gallu derbyn llawer o'r argymhellion.

Fodd bynnag, nid wyf wedi gallu derbyn yr argymhellion hynny sy'n cynnig cyfnodau gosod estynedig ac ymgynghoriad statudol ar is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan adrannau 5 (rhyddhad ardrethi annomestig), 9 (esemptiadau ardrethi annomestig) 10 (lluosyddion ardrethi annomestig), 13 (osgoi ardrethi annomestig) a 18 (gostyngiad yn y dreth gyngor) o'r Bil. Mae'r ymateb i bob un o'r argymhellion hyn yn nodi'r effaith y byddai cyfnod gosod estynedig a/neu ymgynghoriad statudol yn ei chael, ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod rhai o'r pwerau hyn yn gysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd drwy weithredu ar wahanol baramedrau o fewn y system dreth leol. O'r herwydd, mae gweithredu'r system yn y ffordd orau bosibl yn ei chyfanrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru allu defnyddio'r adnoddau hyn o fewn yr un prosesau ac amserlenni deddfwriaethol cyson.

Rwyf hefyd wedi atodi er gwybodaeth gopïau o'r llythyrau rwyf wedi eu hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid, ac rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Atodiad**

**Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai mewn perthynas â'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

**Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell bod y Senedd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

**NODWYD**. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu ystyriol ar gyfnod 1, ac am argymell y dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol ar ddefnyddio pwerau o dan adrannau 5, 9, 10, 13 a 18 o'r Bil.

Dylid cynnal yr adolygiad cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:

- Asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghyd-destun rhyddhad ardrethi annomestig, esemptiadau, lluosyddion, darpariaethau gwrth-osgoi a gostyngiadau yn y dreth gyngor; a

- Gofyniad i ymgynghori â'r Senedd.

**DERBYN MEWN EGWYDDOR.** Yn hytrach na chynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad statudol ar wyneb y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl cam 2 i gynnwys ymrwymiad anstatudol i gynnal adolygiad ôl-weithredu o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth hon cyn diwedd y seithfed Senedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro capasiti Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru ar ôl rhoi cylchoedd ailbrisio byrrach ar waith.

**DERBYN.** Drwy drefniadau nawdd sefydledig ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru a'n Cytundeb Lefel Gwasanaeth blynyddol gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, mae gennym drefniadau hirsefydlog ar waith i fonitro capasiti a darpariaeth y ddau sefydliad. Mae'r ddau sefydliad yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ac yn monitro'r ddarpariaeth yn unol â dangosyddion perfformiad allweddol.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd am unrhyw waith a wneir a chynigion sy'n cael eu hystyried i newid y Dyddiad Prisio Rhagflaenol yn y dyfodol.

**DERBYN.** Bydd y Senedd yn cael gwybod am unrhyw gynnig yn y dyfodol i gwtogi'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol, sy'n ystyriaeth tymor hwy. Yn unol â'r arfer sefydledig, bydd rheoliadau i bennu'r Dyddiad Prisio Rhagflaenol ar gyfer rhestrau ardrethu yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno ar yr adeg briodol.

**Argymhelliad 5:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4

diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi neu i dynnu rhyddhad yn ôl.

**GWRTHOD.** Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid oes yr un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhyddhadau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Mae'n debygol na fyddai'r weithdrefn a argymhellir yn ymarferol yn aml, oherwydd bod angen i awdurdodau lleol roi newidiadau i'r system filio ar waith yn y misoedd cyn 1 Ebrill bob blwyddyn.

Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd, yn enwedig pan fydd Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru. Fel enghraifft ymarferol, ni fyddem wedi gallu darparu'r rhyddhad trosiannol hael a chynhwysfawr a roddwyd ar waith yn dilyn ailbrisiad 2023 pe bai'r rheoliadau (a wnaed o dan y pŵer presennol yn adran 58 o Ddeddf 1988) wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn arfaethedig. Ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r rhyddhad ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol. Er na fyddai'r argymhelliad yn berthnasol i'r pŵer y dibynnir arno yn yr enghraifft honno, gallai cyd-destun tebyg fod yn berthnasol i ddefnydd posibl o'r pwerau yn adran 5 y Bil.

**Argymhelliad 6:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 5, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i roi neu i dynnu rhyddhad yn ôl.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid oes unrhyw un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer rhyddhadau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Yr arfer sefydledig yw ein bod fel arfer yn ymgynghori cyn defnyddio pwerau rhyddhad presennol (mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys darparu rhyddhad gwella a rhyddhad rhwydweithiau gwres o 1 Ebrill 2024 ymlaen), yn unol â'r rhwymedigaethau hyn. Fodd bynnag, gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd lle bu angen gweithredu ar frys heb ddigon o amser i ymgynghori, ac yn enwedig pan fydd Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru.

Fel enghraifft ymarferol o'r cyfyngiad y byddai'r argymhelliad hwn yn ei osod pe bai'n berthnasol i bwerau presennol, ni fyddem wedi gallu darparu'r rhyddhad trosiannol hael a chynhwysfawr a roddwyd ar waith yn dilyn ailbrisiad 2023 pe bai angen ymgynghori wedi digwydd cyn cyflwyno'r rheoliadau (a wnaed o dan adran 58 o Ddeddf 1988) . Ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r rhyddhad ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol. Er na fyddai'r argymhelliad yn berthnasol i'r pŵer y dibynnir arno yn yr enghraifft honno, gallai cyd-destun tebyg fod yn berthnasol i ddefnydd posibl o'r pwerau yn adran 5 y Bil.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau ar y gofynion cymhwyso diwygiedig ar gyfer rhyddhad ardrethi i elusennau. Dylid gwneud y gwaith cyn i'r darpariaethau yn adran 6 ddod i rym.

**DERBYN.** Mae gan Lywodraeth Cymru ganllawiau cyfredol ar yr amrywiaeth o ryddhad ardrethi annomestig sydd ar gael, gan gynnwys mewn perthynas ag elusennau ac eiddo heb ei feddiannu. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru ar ôl pasio'r Bil a chyn i adran 6 ddod i rym.

**Argymhelliad 8:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio'n benodol i roi neu i dynnu esemptiadau yn ôl.

**GWRTHOD**. Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer esemptiadau newydd drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy ohirio darparu esemptiad newydd.

Mae sawl ffordd y gellir lleihau atebolrwydd trethdalwr i sero. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth neu bwerau disgresiwn presennol awdurdodau lleol i ddarparu rhyddhad llawn. Mae esemptiadau yn ddewisiadau eraill posibl yn lle darparu rhyddhad llawn, a gymhwysir pan ystyrir y dylai'r swm taladwy o ardrethi annomestig ar gyfer math penodol o eiddo fod yn sero ar sail barhaol. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai cost a dim budd yn gysylltiedig â phrisio eiddo o'r math hwnnw. Gan hynny, nid yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli, ond bydd yn darparu mwy o gysondeb ar draws y gwahanol elfennau hyn o'r system.

**Argymhelliad 9**: Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 9, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i roi neu i dynnu esemptiadau yn ôl.

**GWRTHOD.** Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer esemptiadau newydd drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Mae fy ymateb i argymhelliad 8 uchod yn disgrifio'r modd nad yw'r pŵer hwn yn fwy arwyddocaol o ran ei effaith bosibl ar atebolrwydd ardrethi annomestig na mecanweithiau deddfwriaethol neu ddewisol eraill sydd eisoes yn bodoli.

**Argymhelliad 10:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**GWRTHOD**. Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd unigol presennol ar unrhyw lefel drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy atal ymyriad buddiol yn y gwaith parhaus o gynnal a chadw unrhyw luosydd gwahaniaethol, ar ôl ei weithredu. Mae Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o bennu'r lluosydd yn flynyddol. Mae hyn yn cael ei ddangos gan ddefnydd Llywodraeth Cymru o'r pŵer presennol, i rewi neu gyfyngu ar dwf yn y lluosydd bob blwyddyn ers 2018-19. Mae'r penderfyniadau cysylltiedig wedi cael eu gwneud fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig. O dan y weithdrefn a argymhellir, ni fyddai digon o amser i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r lluosydd penodol ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol.

**Argymhelliad 11:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau yn adran 10, pan fydd y pwerau'n cael eu defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**GWRTHOD**. Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid yw'r pŵer presennol i Weinidogion Cymru bennu'r lluosydd unigol presennol ar unrhyw lefel drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Er fy mod i wedi ymrwymo i ymgynghori cyn cyflwyno unrhyw luosydd gwahaniaethol, byddai'r un ystyriaeth flynyddol ag sy'n berthnasol i osod y lluosydd presennol yn berthnasol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr dan anfantais drwy atal ymyriad buddiol yn y gwaith parhaus o gynnal a chadw unrhyw luosydd gwahaniaethol, ar ôl ei weithredu. Mae Datganiad Hydref Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn effeithio ar y gyllideb sydd ar gael i lywio dull Llywodraeth Cymru o bennu'r lluosydd yn flynyddol, fel y disgrifir mewn ymateb i argymhelliad 10. Pe bai angen ymgynghori mewn perthynas â chynnal a chadw lluosyddion yn flynyddol, ni fyddai digon o amser wedi bod i baratoi rheoliadau a dod â nhw i rym mewn pryd i awdurdodau lleol roi'r lluosydd penodol ar waith cyn ymgymryd â'u gweithgareddau bilio blynyddol.

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i asesu pa mor addas yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 12, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adolygu'r profiad yn Lloegr.

**GWRTHOD.** Nid yw'r dyletswyddau sy'n cael eu hymestyn i Gymru gan y Bil wedi cael eu cychwyn eto mewn perthynas â Lloegr. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno

cychwyn y darpariaethau ar yr un pryd, o gofio mai bwriad y dyletswyddau newydd yw cynorthwyo ailbrisiadau amlach yn gyson yng Nghymru a Lloegr.

I ddechrau, cynigiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig amserlenni 30 diwrnod ar gyfer y trefniadau yn Lloegr a chynyddodd y cyfnod hwn i 60 diwrnod o ganlyniad i adborth a gafwyd drwy eu hymgynghoriad.  Buom yn ymgynghori ar gynnig ar gyfer amserlenni 60 diwrnod ar y dechrau, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn perthnasol yn cefnogi'r dull gweithredu hwn.

Ar ben hynny, mewn perthynas â'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy o dan baragraff 4J o Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae adran 12(4) o'r Bil yn mewnosod diwygiad i alluogi'r trethdalwr ar gyfer hereditament yng Nghymru i geisio estyniad i'r terfyn amser o 60 diwrnod o'r prisiad.  Bydd darparu diweddariadau rhagweithiol yn brydlon yn lleihau'r gwaith y bydd trethdalwyr yn gorfod ei wneud, gan y bydd yr wybodaeth berthnasol ar gael yn haws nag y byddai pe bai wedi cael mwy o amser neu wedi aros i ymateb i gais adweithiol.  Mae Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi darparu ymrwymiadau clir mewn perthynas â gweithredu'r dyletswyddau hysbysu a'r drefn gydymffurfio gysylltiedig yn deg ac yn gymesur.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddechrau adran 12 yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

**GWRTHOD.**  Mae'r darpariaethau wedi eu nodi'n llawn ac maent yn destun craffu parhaus yn ystod hynt y Bil.  Rwyf wedi rhoi sicrwydd clir na fydd y darpariaethau'n cael eu rhoi ar waith nes bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon y gellir disgwyl yn rhesymol i drethdalwyr gydymffurfio.  Roedd tystiolaeth Asiantaeth y Swyddfa Brisio i'r Pwyllgor yn rhoi rhagor o sicrwydd ynghylch y gwaith maent yn ei wneud i sicrhau bod y trefniadau'n syml i drethdalwyr ymgysylltu â nhw.

**Argymhelliad 14:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 13, wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial.

**GWRTHOD**.  Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol.  Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Byddai mabwysiadu'r argymhelliad hwn yn arwain at oedi wrth fynd i'r afael â threfniadau gwrth-osgoi a nodwyd, gan arwain at osgoi atebolrwydd am gyfnod hir.  Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 13 y Bil wedi cael ei ddylunio'n ofalus i fod mor gyfyngedig â phosibl, gan barhau i alluogi'r bwriad polisi hirsefydlog ac annadleuol y tu ôl i'r darpariaethau i gael ei gyflawni.  Bydd cynigion i ddiffinio trefniadau osgoi artiffisial newydd wedi bod yn destun ymgynghoriad cyn cyflwyno rheoliadau.  Rwy'n fodlon ystyried cynnwys rheoliadau drafft mewn ymgynghoriadau o'r fath.  Rydym wedi defnyddio'r dull hwn ar adegau penodol i sicrhau bod rheoliadau mwy newydd neu gymhleth yn cyflawni bwriad y polisi a byddai hyn hefyd yn galluogi craffu dros dro fel mae'r Senedd o'r farn ei fod yn briodol.  Nid wyf yn cael fy nenu at ddyletswydd statudol i fabwysiadu'r dull a argymhellir, gan y byddai'n anghymesur lle gellir gwneud mwy o fân newidiadau i sicrhau bod darpariaethau sydd eisoes wedi eu sefydlu yn parhau i fod yn effeithiol.

**Argymhelliad 15:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau dan adran 18, ac eithrio pan fyddant yn newid cyfraddau'r disgownt.

**GWRTHOD**. Bydd rheoliadau'n cael eu datblygu yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol presennol yn y gyfraith gyffredin i ymgynghori, ynghyd â pholisi sefydledig Llywodraeth Cymru ar ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos yn rheolaidd ei hymrwymiad i ymgynghori ystyrlon pan fydd newidiadau polisi i'r dreth gyngor wedi cael eu cynnig. Gan hynny, nid oes angen gofyniad deddfwriaethol yn hyn o beth. Gall fod yn anghymesur mewn rhai achosion - er enghraifft, lle gellir gwneud mân ddiwygiadau gweinyddol i reoliadau.

Nid oes unrhyw un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer newidiadau i ddisgowntiau drwy reoliadau yn ddarostyngedig i ddyletswydd ymgynghori statudol. Gallai mabwysiadu'r argymhelliad hwn roi trethdalwyr y cyngor dan anfantais drwy oedi neu hyd yn oed atal darparu cymorth newydd. Fel enghraifft ymarferol o hyn, roedd modd i Weinidogion Cymru ymateb yn gyflym i sicrhau nad oedd aelwydydd lletyol a oedd yn cynnig llety i bobl o Wcráin a oedd yn ceisio diogelwch rhag y rhyfel yn colli'r hawl i ostyngiadau presennol ac yn wynebu costau treth gyngor ychwanegol.

**Argymhelliad 16:** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o 60 diwrnod o leiaf, heb gynnwys cyfnodau diddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 18, ac eithrio wrth newid y cyfraddau disgownt.

**GWRTHOD**. Dim ond mewn achosion eithriadol y defnyddir gweithdrefn uwchgadarnhaol pan ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn annigonol. Fel y dywedais yn y pwyllgor, ni chredaf fod hynny'n wir yng nghyswllt y darpariaethau yn y Bil hwn.

Nid oes yr un o'r pwerau presennol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cymorth tebyg drwy esemptio a diystyru drwy reoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliad 17:** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu monitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20 ar draws awdurdodau lleol a gwerthuso eu heffaith ar hygyrchedd a thryloywder.

**DERBYN**. Byddaf yn gweithio gyda llywodraeth leol i fonitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20.

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei chynigion ar gyfer trefniadau pontio y gallai fod eu hangen i gynorthwyo aelwydydd ac awdurdodau lleol o ganlyniad i'r ailbrisiad o'r dreth gyngor sydd ar y gweill.

**DERBYN**. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd maes o law. Roedd yr ymgynghoriad yng Nghyfnod 2 yn ymrwymo i weithredu trefniadau pontio wedi eu targedu a bydd angen cynllunio'r rhain maes o law. Mae cynlluniau rhyddhad trosiannol yn gyffredin ar gyfer ailbrisiadau o'r dreth leol, a darparwyd cynllun yn dilyn ailbrisiad 2005 o'r dreth gyngor yng Nghymru. Mae cynlluniau rhyddhad yn fuddsoddiad hanfodol i hwyluso'r effeithiau ar drethdalwyr.